

Cymanfa Ganu

Wedi wythnos gyfnewidiol iawn, rhwng cenllysg ac eira, a gwynt a glaw (ac ambell i lygedyn o heulwen) gwawriodd bore'r 19eg o Fai yn braf, er rhyddhad a llawenydd i lawer ohonom. Yn ochr Llambod o'r Cylch, fe ddaw'r cyfle i dderbyn y Gymanfa Ganu bob chwe blynedd, a rhoi ffocws i'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad, ac yn wir, roedd tŷ a thir Bethel, Silian, wedi eu paratoi'n ofalus, ac yn barod iawn i groesawu'r cantorion. Erbyn oedfa'r prynhawn, roedd criw da o'r plant yn barod yn yr oriel (a, wir, roedd rhai ohonyn nhw'n edrych yn fach iawn tu ôl i'r pren...) ac roedden nhw'n cyhoeddi'r emynau ac yna yn eu canu gyda brwdfrydedd mawr.

Bu'r rhannau arweiniol, y prynhawn, yng ngofal Dewi ac Aron; ac Alwena ac Owen oedd yr organyddion. Roedd Twynog Davies, a ddaeth i arwain y Gymanfa, yn pwyso ar y rhestr drefnus a gafodd gan Janet, a fu'n gweithio'n ddyfal gyda'r plant i ddysgu'r emynau, ond roedd e hefyd yn rhoi cyfle annisgwyl i'r plant i gyfrannu o bryd i'w gilydd, a'r plant yn ymateb yn barod iawn. Carys Thomas o'r ochr draw oedd yn llywyddu. Wedi canu'r prynhawn, bu te, a digon a mwy i bawb! Ac yna yn oedfa'r nos, Gwen ac Iwan gymerodd at y rhannau arweiniol, ac Ann a Delyth fu'n canu'r organ. Daeth Elan a Lisa yn ôl i chwyddo'r mawl. Bu Twynog yn arwain unwaith eto yn oedfa'r hwyr, yn adeiladu ar waith Emlyn Davies fu'n arwain rihyrsals yr oedolion. Ac roedd sylwadau Huw, llywydd y nos, yn swyno, a ninnau, ym Methel, ynghanol eicon mawl y greadigaeth, ac atgyfodiad y gwanwyn. Cawsom gwmni a chefnogaeth nifer yn ystod y dydd, ac roedd hi'n arbennig o braf i gael croesawu Enid Griffiths yn ôl i blith ei ffrindiau.

Felly: llongyfarchiadau, a diolch i bawb fu'n cyfrannu. Ddo i byth i ben â'ch enwi chi i gyd! Ond fydde'r Gymanfa ddim yn digwydd yr un peth heblaw fod pob un yn gwneud ei ran. Mae'r cyfan er gogoniant i Dduw, ac mae gwaith caled y paratoadau yn werth yr ymdrech.

Oedfa eciwmenaidd


Cynhaliwyd yr oedfa eciwmenaidd ym mis Mai yn festri Brondeifi, a'r cyfaill y Parchg Wynn Vittle fu'n siarad, gan dynnu ar ei brofiad helaeth o weithio gyda Chymorth Cristnogol fel Ysgrifennydd Cymru am ugain mlynedd cyn cael ei alw i Aberduar a'r cylch yn weinidog. Y tro nesaf, ar 11 Gorffennaf, yn Shiloh y byddwn ni, am 7 o'r gloch. Mae croeso i bawb.

Rhaghysbys:

oedfa unedig y Cylch ar y 5ed Sul: am 10.30 y bore

29 Medi - Bethel

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Gorffennaf**: Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jillto-



Deufis

Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi

Mehefin a Gorffennaf 2013

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

2 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

9 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gwilym Jones
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

16 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Noddfa	6.00 yr hwyr	Oedfa i Noddfa, Caersalem a Bethel o dan ofal Mr Gerwyn Morgan

23 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Mr Silyn Thomas
Bethel	2.00 y prynhawn	Oedfa i Noddfa, Caersalem a Bethel o dan ofal y Parchg Glan Roberts
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa i Brynhafod a Seion o dan ofal Mr Silyn Thomas

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

30 Mehefin

Aberduar 10.30 y bore Oedfa unedig i'r Cylch

7 Gorffennaf

Aberduar 10.00 y bore Cymun

Caersalem 2.00 y prynhawn Cymun

Noddfa 6.00 yr hwyr Cymun

14 Gorffennaf

Aberduar Teithio i Garmel Pontrhydfendigaid ar gyfer oedfa ddathlu'r Parchg Aled Davies (Glanafon gynt) - manylion i ddilyn

Bethel 10.15 y bore Cymun

Seion 1.30 y prynhawn Cymun

Brynhafod 3.00 y prynhawn Cymun

21 Gorffennaf - ond holwch rhag ofn bod newid yn y trefniadau!

Noddfa 9.30 y bore

Aberduar 11.00 y bore

Caersalem 2.00 y prynhawn

28 Gorffennaf: Sul y trip - manylion i ddod

Rhaghysbys: 4 Awst

Aberduar 10.00 y bore Cymun

Caersalem 2.00 y prynhawn Cymun

Noddfa 6.00 yr hwyr Cymun

Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen

Dyma roi gwybod i bawb mewn da bryd fod oedfa Eisteddfod Pantyfedwen yn cael ei chynnal eleni yn Noddfa am 10.30 y bore ar 25 Awst 2013. Gobeithiwn drefnu bod y rhannau arweiniol yng ngofal y bobl ifainc, ac mae'n dda gennym gyhoeddi mai'r Parchg Eirian Wyn Lewis a ddisgwyllir i bregethu.

Cyfarfod blynyddol swyddogion a diaconiaid y Cylch

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol hwn ar 29ain o Ebrill - sy'n teimlo fel amser maith iawn yn ôl erbyn hyn. Roedd hi'n gyfle i mi fel gweinidog ddiolch i'r holl ddiaconiaid a'r swyddogion, a holl

I gael 'Deufis' ar ffurf pdf ar e-bost, anfonwch air ataf i 'jilltomos@tesco.net'.

eglwysi'r Cylch, am eu cefnogaeth a'u gwaith, a'u haelioni grasol ym mhob peth tuag ataf drwy'r flwyddyn, wrth inni fwrw golwg yn ôl ar rai o'r digwyddiadau. Yn y cyfarfod eleni, hysbysodd Mrs Nesta Harries ni ei bod hi'n bwriadu ymddeol o'i gwaith fel Ysgrifennydd y Cylch, ac rydym fel Cylch yn diolch yn ddiffuant iawn iddi am ei gwaith cydwbodol a threfnus ar hyd cyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r apostol Paul yn ein rhybuddio i beidio â bod mewn dyled i neb, heblaw'r ddyled i garu'n gilydd: byddaf i yn nyled Nesta am byth, am ei gofal arbennig ohono i wrth imi ymweld, a dod i'r Cylch, a setlo yma. Wrth ddod, cefais gyfaill gwych yn Nesta: diolch i Dduw am dani. Ond wrth iddi ymddeol nawr, mae angen inni gael rhywun i gymryd at y gwaith, a gwahoddwn enwebiadau un neu ragor sy'n fodlon erbyn yr oedfa unedig ar 30 Mehefin er mwyn inni fwrw ymlaen.

Oherwydd mae'r cyfarfod blynyddol hwn hefyd yn rhoi cyfle inni edrych ymlaen. Wrth edrych ar y niferoedd sydd gyda ni yn y cwrdd o Sul i Sul, mae'n amlwg fod gennym faes cenhadaeth neilltuol ymhlith ein haelodau, gyda rhwng 30% a 85% o aelodau'r eglwysi heb fod yn y cwrdd yn 2013 ar Sul pan oeddwn i'n gwasanaethu, i fyny hyd at 29 Ebrill. Nawr, mae'n amlwg fod rhesymau da a dilys pam na all rhai o'n haelodau ymuno gyda ni i addoli. Ond os nad ydym yn fodlon ar hyn (ac nid wyf i'n fodlon) mae angen inni roi sylw i'r aelodau hyn - eu cofio, gweddi drostyn nhw, siarad â nhw, eu gwahodd nhw, rhoi gwybod iddyn nhw beth sydd ymlaen, a'u cadw mewn cof wrth inni drefnu gweithgareddau, gan gymysgu i fyny'r trefniadau arferol efallai fel ei bod hi'n haws i ddod. Ond nid yr aelodau absennol yn unig - mae neges yr efengyl, o gariad Duw yn Iesu Grist, yn gariad sy wedi newid ein bywydau ni; ac mae angen y cariad hwnnw ar gymaint yn fwy o bobl yn ein cymuned ni. A thrwy ras Duw, yn ein plith, mae'r doniau sy'u hangen. Felly beth amdani? Beth gawn ni ei wneud? Fel unigolion, fel eglwysi, gadewch inni glywed eich syniadau! A hefyd mae angen gwefan arnon ni (*website*) felly dechreuwn feddwl beth i'w roi arni ar gyfer yr eglwysi unigol - mwy i ddod...

Julia a James Henley

Mae Julia a James, a Katie Grace, yn ôl yn Periw ers chwech wythnos erbyn hyn, yn gweithio'n galed ar gadw'r chwain draw ac yn canolbwyntio ar y plant yn Calca, grwp y Julia arall. Bu'r Sulgwyn yn gyfle i gael parti penblwydd a dathlu gyda'r plant! Cofiwch am y newyddion diweddaraf ar jhenley.blogspot.co.uk.